CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 18 Tachwedd 2022.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Hinchey (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hopkins, Humphreys, Jenkins, Jones, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lay, Lent, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Jackie Parry, Reid-Jones, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

39 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ebrahim, Hunt, Robinson a Taylor.

40 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y datganiadau o fuddiant a ganlyn yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

Gwnaeth y Cynghorwyr a ganlyn ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 8, Datganiad Cyfrifon, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, fel aelodau o'r cynllun pensiwn.

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ali Ahmed | Cynghorydd Livesy |
| Cynghorydd Ash-Edwards | Cynghorydd McEvoy |
| Cynghorydd Berman | Cynghorydd Melbourne |
| Cynghorydd Boes | Cynghorydd Merry |
| Cynghorydd Carr | Cynghorydd Michael |
| Cynghorydd Chowdhury | Cynghorydd Naughton |
| Cynghorydd Cowan | Cynghorydd Owen |
| Cynghorydd Davies | Cynghorydd Palmer |
| Cynghorydd De'Ath | Cynghorydd Proctor |
| Cynghorydd Driscoll | Cynghorydd Brown-Reckless |
| Cynghorydd Elsmore | Cynghorydd Reid-Jones |
| Cynghorydd Ferguson-Thorne | Cynghorydd Robson |
| Cynghorydd Gibson | Cynghorydd Singh |
| Cynghorydd Goodway | Cynghorydd Thomson |
| Cynghorydd Keith Jones | Cynghorydd Thomas |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jackie Jones | Cynghorydd Waldron |
| Cynghorydd Latif | Cynghorydd Weaver |
| Cynghorydd Lay | Cynghorydd Wild |
| Cynghorydd Lewis | Cynghorydd Williams |
| Cynghorydd Littlechild | Cynghorydd Wood |

| Y Cynghorydd | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Cynghorydd Bradbury | Eitem 12 – Hysbysiad o Gynnig 1 | Buddiant Personol: Aelod o Wal Goch Cymru, Clwb Pêl-droed Caerau a Threlái, Clwb Rygbi Caerau a Threlái, Clwb Rygbi Crwydriaid Morgannwg, Deiliad Tocyn Tymor Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ac Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Chwaraeon y Tyllgoed |
| Cynghorydd Palmer | Eitem 12 – Hysbysiad o Gynnig 1 | Buddiant Personol – Aelod Pwyllgor, Clwb Pêl-droed yr Eglwys Newydd |
| Cynghorydd Michael | Eitem 12 – Hysbysiad o Gynnig 1 | Buddiant Personol – Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Chwaraeon y Tyllgoed, ac yn gweithio gyda Chlybiau Pêl-droed a Rygbi'r Tyllgoed a Chlybiau Pêl-droed a Bocsio Llaneirwg |
| Cynghorydd Naughton | Eitem 9 – Diweddariad ar y Cyfansoddiad | Buddiant Personol – Aelod o'r teulu sy'n derbyn pensiwn Bws Caerdydd |
| Cynghorydd Thomas | Eitem 18 – Penodiad i Stadiwm y Mileniwm ccc | Buddiant Rhagfarnus – Cyfarwyddwr, Stadiwm y Mileniwm ccc |
| Cynghorydd Lloyd Jones | Eitem 12 – Hysbysiad o Gynnig 1 | Buddiant Personol – Aelod o'r Wal Goch |
| Cynghorydd Boes | Eitem 12 – Hysbysiad o Gynnig 1 | Buddiant Personol – Aelod Pwyllgor, Ymddiriedolaeth Chwaraeon y Tyllgoed |
| Cynghorydd Ali | Eitem 12 – Hysbysiad o Gynnig 1 | Buddiant Personol – Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd |
| Cynghorydd Davies | Eitem 14 Cwestiwn Llafar 1 | Buddiant Personol – Cyfarwyddwr Anweithredol, Bws Caerdydd. |

## 41 : COFNODION

Derbyniwyd cofnodion 26 Hydref 2022 a'u llofnodi gan yr Arglwydd Faer.

## 42 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

*Cwestiwn Cyhoeddus gan Florian French i'r Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor*

Beth mae'r Cyngor yn mynd i'w wneud i amddiffyn ein parciau rhag datblygiadau, ein hafonydd rhag carthffosiaeth a'n strydoedd rhag llifogydd?

*Ateb: Cynghorydd Huw Thomas*
Diolch i chi Arglwydd Faer, ac a gaf i eich llongyfarch, Florian, ar eich diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Efallai un diwrnod y byddwch chi'n sefyll yma yn ateb cwestiynau.

O safbwynt cynllunio, mae'r Cyngor, fel yr awdurdod cynllunio lleol, yn ystyried pob cynnig datblygu yn erbyn polisïau cynlluniau datblygu lleol a chenedlaethol, a'r holl ffactorau cynllunio perthnasol eraill.

Os gwnaf i ymdrin â’r pwynt am ddraenio a gollyngiadau carthion yn gyntaf; nid yw materion draenio dŵr budr a'u gorfodi yn faterion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Cyrff statudol eraill sy'n gyfrifol am y rhain; gan gynnwys, o ran prif afonydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yna Dŵr Cymru sydd, rwy’n meddwl, yn buddsoddi mewn seilwaith newydd mewn gwahanol rannau o'r ddinas i liniaru yn erbyn gollyngiadau carthion.

O ran llifogydd ar ein strydoedd, rwy’n meddwl y gallwn ni i gyd weld drosom ein hunain pa mor agored yw’r ddinas i ddigwyddiadau tywydd mwy eithafol a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Rwy’n meddwl ei bod yn bwysig pwysleisio bod yr holl systemau draenio priffyrdd yn y ddinas wedi’u dylunio i safon diwydiant. Pryd bynnag mae capasiti’r system yn cael ei gyrraedd, mae pyllau'n digwydd ar y briffordd; ond pan fo capasiti o fewn y system, mae’r dŵr wyneb yn draenio drwy gwlïau’r priffyrdd. Pan fo rhagolygon o lawtrwm, rwy’n meddwl ei bod yn ddefnyddiol i bobl ddeall y bydd tîm draenio priffyrdd y Cyngor yn mynd i fannau problemus hysbys yn y ddinas, ac yn clirio rhwystrau gan gynnwys gwaddodion, llaid a dail o’r ardal i helpu i leihau’r perygl o lifogydd.

Rwyf hefyd am dynnu sylw at sut y mae dinas Caerdydd wedi bod yn arloeswr cenedlaethol o ran ein hymagwedd tuag at ddulliau draenio trefol cynaliadwy, gan ddechrau gyda chynllun Grangetown Werddach, yna’r cynllun systemau draenio cynaliadwy yn Wood Street a’r Sgwâr Canolog, sef y cynllun canol dinas cyntaf o’i fath yn y DU rwy’n meddwl, gan ddod â gwyrddni mawr ei angen i ran o’r ddinas a oedd â llawer iawn o draffig yn flaenorol. Neu eto, y cynllun draenio newydd ochr yn ochr â'r llwybr beicio rydym wedi'i osod neu yn y broses o'i osod ar hyd Teras Cathays; mae'r rhaglen llwybr beicio yn rhan o ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ehangu’r gorchudd coed yn y ddinas, o 19% o’r defnydd tir i 25%, fel rhan o'n strategaeth Caerdydd Un Blaned; a bydd hyn yn cynnwys gwaith plannu sylweddol ar strydoedd a fydd, yn ei dro, yn cefnogi’r nod o amsugno dŵr wyneb.

Yn olaf, o ran parciau, mae gan Gaerdydd hanes cryf o ddiogelu a gwella ein parciau. Ers 2012, mae 10 parc ar wahân yng Nghaerdydd wedi cael eu rhoi mewn ymddiriedolaethau drwy’r sefydliad Fields in Trust, sy’n golygu eu bod wedi’u hamddiffyn am byth. Rydym yn parhau i weithio gyda Fields in Trust i nodi cyfleoedd pellach i wneud hynny. Rwyf hefyd yn falch o nodi, fel prawf o'n gwaith i wella

ansawdd ac amddiffyn ein parciau, ein bod, dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi cynyddu nifer y parciau yng Nghaerdydd sy'n ennill y Faner Werdd ar gyfer Rhagoriaeth i gyfanswm o 16. Dyma'r ffigur uchaf yr ydym erioed wedi'i gyflawni, a hefyd y mwyaf o blith yr awdurdodau lleol yng Nghymru, ac rydym yn targedu twf pellach yn y dyfodol.

Felly Florian, gobeithio bod yr ateb hwnnw'n cynnig sicrwydd. Diolch yn fawr.

(Esboniodd Mrs French, mam Florian, mai Fletcher French ydyw mewn gwirionedd; mae ei frawd yn 8 oed, a'i frawd a ofynnodd y cwestiwn; ond fel mae rhai ohonoch yn gwybod mae'n siŵr, roedd ei frawd yn sâl heddiw a doedd e ddim yn mynd i gael gofyn cwestiwn, felly fe ofynnodd i Fletcher ddod draw i gymryd arno ei fod yn ef ei hun. Byddem yn erfyn ar y Cyngor yn y dyfodol i ganiatáu i bobl ymuno ar fyr rybudd ar Zoom; a hefyd i ganiatáu, lle mae cwestiwn yn cael ei ofyn gan grŵp o blant, gan fod y cwestiwn hwn gan YGC Rebel Cades, yn caniatáu i aelod arall o’r grŵp ofyn y cwestiwn ar fyr rybudd, oherwydd nid oedd aros tan fis Ionawr yn dderbyniol i Florian. Nododd yr Arglwydd Faer na ddefnyddiwyd Zoom oherwydd pryderon diogelwch.

*Cwestiwn Atodol (a ofynnwyd gan Mrs French):*
Roedd y ffyrdd o amgylch ein hysgol dan ddŵr y bore yma yn Ystum Taf. Rydych chi wedi sôn am y gwaith rydych chi wedi'i wneud o ynghylch glanhau mwy o barciau a'r 16 Baner Werdd. Mae Parc Hailey yn Barc Baner Werdd; mae'r holl strydoedd o'i chwmpas dan ddŵr; mae'r safle arfaethedig ar gyfer y datblygiad ym Mharc Hailey mewn parth llifogydd. Pam ydych chi'n ychwanegu mwy o ddŵr i'r system cyn i chi ei dynnu, a beth ydych chi'n mynd i'w wneud i atal hynny?

*Ateb:*
Rwy’n ymwybodol o’r adolygiad barnwrol sy’n mynd rhagddo felly byddaf yn dewis fy ngeiriau’n ofalus iawn. O ran y llifogydd arwynebedd yr oeddech yn sôn amdanynt mewn rhannau o Ystum Taf, cefais luniau gan y Cynghorydd Dilwar Ali neithiwr; aeth e o gwmpas y ward gyfan gan nodi problemau. Gwn fod timau'r Cyngor wedi ymateb yn ystod y nos.

Af i ddim i fanylion cynllunio, ond byddwch yn nodi yn yr adroddiad cynllunio fod sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch mynd i’r afael ag unrhyw bryderon llifogydd yn lleoliad y cynllunio, ac mae’r cais cynllunio yn ymdrin â nhw.

## 43 : DEISEBAU

Roedd y deisebau canlynol wedi dod i law.

| Cyflwynwyd gan | Nifer y llofnodion perthnasol | Natur y ddeiseb |
|---|---|---|
| Elaine Moore | 462 | Yn galw ar y Cyngor i ddarparu prydau ysgol am ddim ar gyfer plant ysgol ym mlynyddoedd 1 a 2 o fis Medi 2022 ymlaen |
| Pam French | 1,058 | Yn galw ar y Cyngor i wyrdroi ei benderfyniad i brydlesu tir Parc Hailey ar gyfer gorsaf pwmpio carthion. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorydd Ali | 77 | Yn galw ar y Cyngor i beidio ag adeiladu ar Y Fram, Ystum Taf |
| Cynghorydd Carter | 917 | Yn galw ar y Cyngor i ollwng cynlluniau i leihau casgliadau biniau du i un casgliad bob tair wythnos |
| Cynghorydd Robson | 140 | Yn galw ar y Cyngor i atal lorïau cymalog rhag mynd trwy Rhiwbeina ac i lawr Ffordd Beulah |

44 : CYHOEDDIADAU YR ARGLWYDD FAER

Amlygodd yr Arglwydd Faer y canlynol:

Yfory, ddydd Gwener 25 Tachwedd, mae’n ddiwrnod “Dileu trais yn erbyn menywod a merched” y Cenhedloedd Unedig, a elwir hefyd yn ddiwrnod y Rhuban Gwyn. Nododd y bobl hynny yn y Siambr a oedd yn gwisgo’u rhubanau gwyn ac anogodd yr Aelodau i ymweld â’r stondin y tu allan i’r Siambr, cymryd gwybodaeth a rhannu’r neges bwysig iawn hon ar sianeli’r cyfryngau cymdeithasol.

Mae Cyngor Caerdydd wedi’i achredu am y trydydd tro eleni ac fe dderbyniodd, ar ran y Cyngor, blac achredu’r Rhuban Gwyn gan Anthea Sully, Prif Weithredwr White Ribbon UK. Canmolodd bawb a gymerodd ran.

Cynhaliwyd nifer o wasanaethau a digwyddiadau Dydd y Cofio, yn lleol a ledled Caerdydd yn gynharach y mis hwn, i goffáu’r rhai a anafwyd neu a gollodd eu bywydau mewn gwrthdaro o gwmpas y byd a diolchodd i’r Lleng Brydeinig Frenhinol a chwaraeodd ran flaenllaw ym mhob un o’r digwyddiadau hyn, a ddaeth i ben gyda'r Gwasanaeth Cofio Cenedlaethol ddydd Sul, 13 Tachwedd. Mae'r rhyfel parhaus yn Wcráin yn ein hatgoffa'n glir am y byd bregus yr ydym yn byw ynddo ac yn aml yn ei gymryd yn ganiataol.

Cafwyd Saliwt Gwn Brenhinol yng Nghastell Caerdydd ar 14 Tachwedd i ddathlu penblwydd Brenin Siarl III yn 74 oed, a gynhaliwyd gan Frigâd 160 (Cymru), Catrawd 104 y Magnelwyr Brenhinol a'r Gatrawd Barasiwt.

Y mis hwn mae myfyrwyr o Israel, Prif Gonswl Portiwgal a llong Llynges Canada, HMCS Montreal, wedi ymweld â ni. Rydym hefyd wedi croesawu Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ac Ei Uchelder Brenhinol Dug Caerloyw (bore yma). Mae tua 30 o bobl (o bob rhan o'r byd) wedi mynychu ein Seremonïau Dinasyddiaeth yn Neuadd y Ddinas y mis hwn ac wedi derbyn Cenedligrwydd Prydeinig.

Caiff ymweliad ag Ysgol Gynradd Danescourt ei gynnal ar 25 Tachwedd gyda'r Cynghorydd Merry; bydd GWOBR AUR UNICEF, Parchu Hawliau yn cael ei chyflwyno i’r ysgol.

Llongyfarchiadau i’r Cynghorydd Sian Melbourne sydd wedi cael ei dethol i gynrychioli tîm rygbi byddar cenedlaethol Cymru yng Nghwpan y Byd rygbi saith bob ochr yn yr Ariannin. A da iawn i'w mab, Mabon, sydd wedi chwarae yng ngêm griced

yr Arglwydd Faer o'r blaen, am helpu i godi ymwybyddiaeth a'r arian angenrheidiol ar gyfer y prosiect hwn.

Bydd y Cynghorydd Joel Williams yn cynnal bore coffi elusennol yr Arglwydd Faer Ddydd Sadwrn, 3 Rhagfyr.

Pob lwc i dîm Pêl-droed Cenedlaethol Cymru yn eu gemau ym Mhencampwriaeth Cwpan y Byd sydd i ddod dros yr ychydig wythnosau nesaf. Mae’r het fwced bellach yn rhan o’n treftadaeth genedlaethol ac yn rhywbeth y gallwn ei gwisgo yma gyda balchder.

## 45 : ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2022-2023

Rhoi gwybod i’r Aelodau am weithgareddau rheoli Trysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2022 a’r sefyllfa ar 30 Medi 2022.

PENDERFYNWYD:

Argymell bod y Cyngor yn nodi Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2022-23 (Atodiad 1).

## 46 : DATGANIAD CYFRIFON 2021-2022, CRONFA BENSIWN CAERDYDD A BRO MORGANNWG

Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon 2021/22 er mwyn bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y’u diwygiwyd), sy’n darparu bod y Datganiad Cyfrifon i’w cymeradwyo gan bwyllgor perthnasol neu gan gyfarfod y Cyngor fel corff corfforaethol. Oherwydd COVID-19, mae amserlenni cenedlaethol ar gyfer llofnodi cyfrifon yn parhau i gael eu hymestyn o 31 Mai i 31 Awst, ac mae’r rhai ar gyfer cyhoeddi wedi’u hymestyn o 31 Gorffennaf 2022 i 31 Ionawr 2023.

Mae’r Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i’r archwilydd penodedig gyflwyno i’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu adroddiad ar y materion allweddol sy’n codi o’r archwiliad archwilio o’r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD

CYTUNODD y Cyngor i wneud y canlynol:

1. Cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2021/22 – Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Atodiad 1).

2. Nodi'r adroddiadau ar yr archwiliad o gyfrifon (ISA 260) gan Archwilio Cymru ar y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 (Atodiad 2).

3. Nodi'r llythyr cynrychiolaeth terfynol ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi’i gynnwys yn Atodiad 2.

4. Nodi y bydd y dogfennau canlynol yn cael eu llofnodi ar ddiwedd y cyfarfod:

- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg – yr Arglwydd Faer a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Tystysgrif archwilio ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg – Archwilydd Penodedig, Archwilio Cymru

Y llythyr cynrychiolaeth ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg – yr Arglwydd Faer a'r Prif Weithredwr.

47 : ADRODDIAD DIWEDDARU AR Y CYFANSODDIAD

Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cyngor mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol amrywiol a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyfansoddiad –mewn perthynas â'r canlynol yn benodol:

(a) Rhannu Swyddi yn y Cabinet;
(b) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: Cadeirydd ac Is-Gadeirydd;
(c) Llofnodi a selio dogfennau yn electronig;
(d) Cynllun Pensiwn Bws Caerdydd: awdurdod dirprwyedig;
(e) Dirprwyaethau Ystadau Strategol;
(f) Cofrestr Aelodau (cyfeiriadau cartref);
(g) Grwpiau cyngor pob plaid: cefnogaeth i swyddogion;
(h) Hawliau arweinwyr grwpiau i siarad yng nghyfarfodydd y Cabinet; a
(i) Siarter y Cynghorau Cymuned.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i wneud y canlynol:

Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad a argymhellir ac a nodir yn yr adroddiad a'i atodiadau, a gofynnwyd i'r Swyddog Monitro ddiweddaru'r Cyfansoddiad yn unol â hynny.

48 : DEFNYDD AELODAU O TG Y CYNGOR AR GYFER CYFARFODYDD GRWPIAU GWLEIDYDDOL.

Gofynnir i'r Cyngor ystyried y diwygiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg i God Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â defnyddio offer TG y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol o bell / hybrid.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i wneud y canlynol:

1. Cymeradwyo diwygio'r Cod Ymddygiad i Aelodau, fel y nodir ym mharagraff 14 o'r adroddiad;

2. Cymeradwyo'r Protocol drafft ar gyfer Defnyddio Offer TG Cyfarfodydd Hybrid y Cyngor ar gyfer Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad fel Atodiad A;

3. Cyfarwyddo'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Cyfansoddiad yn unol â hynny, a chyhoeddi'r hysbysiadau gofynnol mewn perthynas â diwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau, fel y nodir ym mharagraff 18 o’r adroddiad; a

Dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg a Chwipiaid Grŵp y pleidiau, i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i’r Protocol (Atodiad A), er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu’n effeithiol.

49 : DATGANIADAU'R CABINET

Datganiad yr Arweinydd
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Cyn COP27 – Derbyniad

Y Datganiad Buddsoddi a Datblygu
Ymatebodd y Cynghorydd Goodway i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Rhagolygon economaidd
- Cefnogi busnesau lleol

Y Datganiad Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymatebodd y Cynghorydd Norma Mackie i gwestiynau ynghylch y canlynol:
- Gwella amodau gweithwyr gofal
- Y Tîm Adnoddau Cymunedol
- Gwasanaeth dydd anghenion cymhleth

Ymatebodd y Cynghorydd Ash Lister i gwestiynau ynghylch y canlynol:
- Sesiynau DIY i'r rhai sy'n gadael gofal

Y Datganiad Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd
Ymatebodd y Cynghorydd Julie Sangani i gwestiynau ynghylch y canlynol:
- Sgrinio canser y coluddyn

Ymatebodd y Cynghorydd Peter Bradbury i gwestiynau ynghylch y canlynol:
- Cymorth cyflogaeth i bobl o Wcráin

Y Datganiad Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol
Ymatebodd y Cynghorydd Dan De'Ath i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Y Clo Beic
- Ymgyrch Ellon
- Y Rhaglen Ysgolion Teithio Llesol

Datganiad y Dirprwy Arweinydd ac Addysg
Nid oedd unrhyw gwestiynau i'r Cynghorydd Merry

Datganiad Newid Hinsawdd
Ymatebodd y Cynghorydd Caro Wild i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwasanaethau ailgylchu dros gyfnod y Nadolig
- Cerbyd newydd ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu ar wahân
- Digwyddiad yr Ysgubiad Mawr i glirio dail sydd wedi cwympo

Y Datganiad Diwylliant, Parciau, Digwyddiadau a Lleoliadau
Ymatebodd y Cynghorydd Jennifer Burke-Davies i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwobr Perfformiwr Gorau'R Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus
- Llyn Parc y Rhath
- Prydlesi cymunedol ar gyfer clybiau pêl-droed lleol.

Y Datganiad Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
Ymatebodd y Cynghorydd Chris Weaver i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru

Y Datganiad Tai a Chymunedau
Ymatebodd y Cynghorydd Lynda Thorne i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwasanaethau atebion tai ac atal
- Diweddariad ar ddiogelwch cymunedol
- Y Gronfa Strydoedd Saffach

50 : HYSBYSIAD O GYNNIG 1

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Littlechild ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Calum Davies wedi'i dderbyn i'w ystyried. Roedd un diwygiad wedi dod i law oddi wrth y grŵp Llafur.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Littlechild i gyflwyno'r cynnig, sy'n nodi'r hyn a ganlyn:

- yn llongyfarch tîm pêl-droed dynion Cymru ar gyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958, tra'n dathlu'r twf a'r cynnydd yng ngêm y merched;
- yn diolch i'r tîm am eu hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig;
- yn nodi'r manteision iechyd a llesiant niferus o chwarae pêl-droed a chwaraeon tîm eraill;
- yn cydnabod y gwaith cymunedol anhygoel y mae clybiau chwaraeon yn ei wneud yn eu cymunedau yn ystod ac yn dilyn cyfyngiadau symud COVID-19.
- yn cydnabod anallu clybiau chwaraeon cymunedol i gwrdd a chodi arian yn ystod y cyfyngiadau symud, a arweiniodd at ddisbyddu eu hadnoddau ariannol.
- yn cydnabod bod darparu caeau a chyfleusterau ar gyfer pêl-droed a chwaraeon eraill yn hollbwysig i'r agenda Cryfach, Tecach, Gwyrddach, ac nad oes rhaid i glybiau pêl-droed iau a bychan dalu ffioedd caeau na ffioedd ar gyfer ystafelloedd newid;
- yn ystyried y byddai ymestyn y polisi hwn i bob tîm pêl-droed sy'n defnyddio caeau ac ystafelloedd newid y Cyngor am flwyddyn yn waddol priodol i ddathlu Cymru'n cyrraedd Cwpan y Byd fyddai;

- yn galw ar y cabinet i ddwyn adroddiad ymlaen i ystyried hyn cyn Cyllideb 2023/24; ac
- yn dymuno pob llwyddiant i dîm pêl-droed Cymru.

Roedd un diwygiad fel a ganlyn:

Cynigiodd y Cynghorydd Michael ac eiliodd y Cynghorydd Bridgman:

Y dylai'r pum pwynt bwled cyntaf aros yr un fath. Ar ôl hynny, mae unrhyw ychwanegiadau mewn print trwm, mae gan ddileadau linell drwyddynt a bydd y pwynt bwled olaf yn aros yr un fath.

3. *yn cydnabod bod darparu caeau a chyfleusterau ar gyfer pêl-droed a chwaraeon eraill yn hollbwysig i'r agenda Cryfach, Tecach, Gwyrddach, ~~ac nad oes rhaid i glybiau pêl-droed iau a bychan dalu ffioedd caeau na ffioedd ar gyfer ystafelloedd newid~~;*
4. ***yn dathlu 10 mlynedd ers darparu mynediad am ddim i glybiau pêl-droed iau a bychan a gyflwynwyd gan weinyddiaeth Heather Joyce***
5. ***yn croesawu'r buddsoddiad parhaus mewn meysydd chwarae, caeau 3G ac ystafelloedd newid dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain, ymhlith pethau eraill, at leihad sylweddol yn nifer yr achosion o ganslo gemau, ac yn croesawu ymhellach y strategaeth gweithgarwch corfforol newydd ar gyfer y ddinas gyfan sy'n ehangu ac yn dyfnhau lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon***
6. ***yn galw ar Glwb Pêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru, a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Cyngor ac awdurdodau lleol eraill i sicrhau gwaddol hirdymor priodol yn dilyn cyfranogiad Cymru; ac***
7. *~~yn ystyried y byddai ymestyn y polisi hwn i bob tîm pêl-droed sy'n defnyddio caeau ac ystafelloedd newid y Cyngor am flwyddyn yn waddol priodol i ddathlu Cymru'n cyrraedd Cwpan y Byd fyddai;~~*
8. *~~yn galw ar y cabinet i ddwyn adroddiad ymlaen i ystyried hyn cyn Cyllideb 2023/24; ac~~*

## *Mae geiriad y cynnig diwygiedig fel a ganlyn:*

4. *yn llongyfarch tîm pêl-droed dynion Cymru ar gyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958, tra'n dathlu'r twf a'r cynnydd yng ngêm y merched;*
5. *yn diolch i'r tîm am eu hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig;*
6. *yn nodi'r manteision iechyd a llesiant niferus o chwarae pêl-droed a chwaraeon tîm eraill;*
7. *yn cydnabod y gwaith cymunedol anhygoel y mae clybiau chwaraeon yn ei wneud yn eu cymunedau yn ystod ac yn dilyn cyfyngiadau symud COVID-19.*
8. *yn cydnabod anallu clybiau chwaraeon cymunedol i gwrdd a chodi arian yn ystod y cyfyngiadau symud a arweiniodd at ddisbyddu eu hadnoddau ariannol.*
9. *yn cydnabod bod darparu caeau a chyfleusterau ar gyfer pêl-droed a chwaraeon eraill yn hollbwysig i'r agenda Cryfach, Tecach, Gwyrddach;*
10. *yn dathlu 10 mlynedd ers darparu mynediad am ddim i glybiau pêl-droed iau a bychan a gyflwynwyd gan weinyddiaeth Heather Joyce*
11. *yn croesawu'r buddsoddiad parhaus mewn meysydd chwarae, caeau 3G ac ystafelloedd newid dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain, ymhlith pethau eraill, at leihad sylweddol yn nifer yr achosion o ganslo gemau, ac yn croesawu ymhellach y strategaeth gweithgarwch corfforol newydd ar gyfer y ddinas gyfan sy'n ehangu ac yn dyfnhau lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon*

12. *yn galw ar Glwb Pêl-droed Caerdydd, Chwaraeon Cymru, a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Cyngor ac awdurdodau lleol eraill i sicrhau gwaddol hirdymor priodol yn dilyn cyfranogiad Cymru; ac*
13. *yn dymuno pob llwyddiant i dîm pêl-droed Cymru*

Agorodd yr Arglwydd Faer yr eitem ar gyfer dadl.

Ymatebodd y Cynghorydd Littlechild i'r ddadl a chadarnhau nad oedd y diwygiad yn cael ei dderbyn.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad. DERBYNIWYD y bleidlais.

Ymatebodd y Cynghorydd Michael cyn i'r bleidlais ar y Cynnig Sylweddol fel y'i diwygiwyd gael ei chynnal.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig Sylweddol fel y'i diwygiwyd.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig Sylweddol fel y'i diwygiwyd.

51 : HYSBYSIAD O GYNNIG 2

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Ali Ahmed ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Maliika Kaaba wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd un diwygiad gan grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Ali Ahmed i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

Mae Caerdydd yn Ddinas gosmopolitaidd. Wedi'i gyrru gan dwf y diwydiant glo, a wnaeth Caerdydd yn un o borthladdoedd pwysicaf y byd, daeth y ddinas yn gartref i rai o'r cymunedau cynharaf o fewnfudwyr ym Mhrydain.

Gyda hanes balch o groeso a noddfa sy'n parhau hyd heddiw, mae Caerdydd yn dathlu amrywiaeth ei thrigolion, sy'n cyfrannu at ein cyfoethogi yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Yn anffodus, fel yr amlygodd gwaith y Tasglu Cydraddoldeb Hil, mae hiliaeth yn parhau i effeithio ar brofiadau llawer o bobl yn y ddinas o ddydd i ddydd. Mis Tachwedd yw Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia, felly mae'n arbennig o briodol tynnu sylw at yr heriau a wynebir gan Fwslimiaid yng Nghaerdydd.

Mae'r ddinas yn gartref i boblogaeth Fwslimaidd fawr o dros 23,000 o bobl. Mae Mwslimiaid yng Nghymru hefyd yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig. Mae aelodau'r Gymuned Fwslimaidd yng Nghaerdydd yn rhan annatod o gyfansoddiad y ddinas, yn chwarae rhan enfawr ym mhob agwedd ar fywyd Caerdydd, gan gynnwys y GIG, busnesau, addysg, yr adran gyfreithiol ac mewn gwleidyddiaeth ond, er gwaethaf hyn, mae'n destun pryder bod ein cymuned Fwslimaidd yn profi Islamoffobia gan rai pobl.

Yn ôl adroddiad diweddaraf y Swyddfa Gartref ar Droseddau Casineb yng Nghymru a Lloegr, targedwyd Mwslimiaid mewn 50% o'r holl droseddau casineb crefyddol a

gofnodwyd yn 2019/20 – ffigur sy'n gyson ag adroddiadau blynyddoedd blaenorol – sy'n golygu eu bod yn profi mwy o droseddau casineb a ysgogir gan grefydd nag unrhyw grŵp crefyddol arall.

Ar 27 Tachwedd 2018, lluniodd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Fwslimiaid Prydeinig y diffiniad gweithredol o Islamoffobia yn dilyn ymgynghoriad dwy flynedd.

Mae'r diffiniad fel a ganlyn:
***"Mae Islamoffobia wedi'i wreiddio mewn hiliaeth ac mae'n fath o hiliaeth sy'n targedu Mwslimiaeth canfyddedig neu ffyrdd pobl o fynegi eu bod yn Fwslim."***

Mae'r cynnig hwn yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r diffiniad hwn, a chefnogi Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia, a fydd yn canolbwyntio ar y cyfraniadau cadarnhaol y mae Mwslimiaid yn eu gwneud yn ein dinas.

**Cynnig**

Mae'r Cyngor hwn o'r farn:

- Bod mabwysiadu diffiniad o Islamoffobia yn hanfodol i fynd i'r afael ag Islamoffobia mewn modd effeithiol wedi'i dargedu.
- Heb ddiffiniad o Islamoffobia, ni all rhywun nodi sut mae Islamoffobia yn amlygu ei hun ac yn gweithredu ac felly, ni all ddyfeisio strategaethau ystyrlon i fynd i'r afael ag ef.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

9. Mabwysiadu diffiniad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia, ynghyd â chanllawiau esboniadol y Gynghrair yn Erbyn Islamoffobia i ddarparu dealltwriaeth fwy cyfannol o Islamoffobia.
10. Gweithio gydag ysgolion Caerdydd, cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus, heddlu De Cymru, a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill i fynd i'r afael ag Islamoffobia ar lefel leol, i gefnogi'r gwaith ehangach sy'n ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hil.
11. Cymryd camau pellach i fynd i'r afael ag Islamoffobia a chodi ymwybyddiaeth ohono, megis trefnu hyfforddiant Islamoffobia cynnal digwyddiadau lleol ar fater Islamoffobia yn ystod Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia (Tachwedd)
12. Cydweithio â'r gymuned Fwslimaidd leol i herio Islamoffobia a diwallu eu hanghenion fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
13. Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol eraill fel yr ASau lleol i godi ymwybyddiaeth o Islamoffobia yn y Senedd ac annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu diffiniad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia

Roedd un diwygiad fel a ganlyn:

Cynigiodd y Cynghorydd Molik y diwygiad.
Y Cynnig i aros yr un fath tan y paragraff o dan y pennawd 'Mae'r Cyngor hwn yn Penderfynu':

***Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:***

14. *Mabwysiadu diffiniad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia, ynghyd â chanllawiau esboniadol y Gynghrair yn Erbyn Islamoffobia i ddarparu dealltwriaeth fwy cyfannol o Islamoffobia.*
15. *Gweithio gydag ysgolion Caerdydd, cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus, heddlu De Cymru, a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill i fynd i'r afael ag Islamoffobia ar lefel*

*leol, i gefnogi'r gwaith ehangach sy'n ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hil.*

16. *Cymryd camau pellach i fynd i'r afael ag Islamoffobia a chodi ymwybyddiaeth ohono, megis darparu hyfforddiant a chynnal digwyddiadau ar sut i fynd i'r afael ag Islamoffobia, yn ystod Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia (Tachwedd)*
17. *Cydweithio â'r gymuned Fwslimaidd leol i herio Islamoffobia a diwallu eu hanghenion fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a phob agwedd ar fywyd megis addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a gwasanaethau cyhoeddus.*
18. *Sicrhau bod gan Gyngor Caerdydd weithlu amrywiol a chynhwysol drwy ymgymryd â rhaglenni hyfforddiant er mwyn mynd i'r afael ag Islamoffobia a rhagfarn ddiarwybod.*
19. *Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol eraill fel yr ASau lleol i godi ymwybyddiaeth o Islamoffobia yn y Senedd ac annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu diffiniad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia*

## Bydd geiriad Cynnig Diwygiedig fel a ganlyn:

*Mae Caerdydd yn Ddinas gosmopolitaidd. Wedi'i gyrru gan dwf y diwydiant glo, a wnaeth Caerdydd yn un o borthladdoedd pwysicaf y byd, daeth y ddinas yn gartref i rai o'r cymunedau cynharaf o fewnfudwyr ym Mhrydain.*

*Gyda hanes balch o groeso a noddfa sy'n parhau hyd heddiw, mae Caerdydd yn dathlu amrywiaeth ei thrigolion, sy'n cyfrannu at ein cyfoethogi yn gymdeithasol ac yn economaidd.*

*Yn anffodus, fel yr amlygodd gwaith y Tasglu Cydraddoldeb Hil, mae hiliaeth yn parhau i effeithio ar brofiadau llawer o bobl yn y ddinas o ddydd i ddydd. Mis Tachwedd yw Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia, felly mae'n arbennig o briodol tynnu sylw at yr heriau a wynebir gan Fwslimiaid yng Nghaerdydd.*

*Mae'r ddinas yn gartref i boblogaeth Fwslimaidd fawr o dros 23,000 o bobl. Mae Mwslimiaid yng Nghymru hefyd yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig. Mae aelodau'r Gymuned Fwslimaidd yng Nghaerdydd yn rhan annatod o gyfansoddiad y ddinas, ac yn chwarae rhan enfawr ym mhob agwedd ar fywyd Caerdydd gan gynnwys y GIG, busnesau, addysg, yr adran gyfreithiol ac mewn gwleidyddiaeth ond, er gwaethaf hyn, mae'n destun pryder bod ein cymuned Fwslimaidd yn profi Islamoffobia gan rai pobl.*

*Yn ôl adroddiad diweddaraf y Swyddfa Gartref ar Droseddau Casineb yng Nghymru a Lloegr, targedwyd Mwslimiaid mewn 50% o'r holl droseddau casineb crefyddol a gofnodwyd yn 2019/20 – ffigur sy'n gyson ag adroddiadau blynyddoedd blaenorol – sy'n golygu eu bod yn profi mwy o droseddau casineb a ysgogir gan grefydd nag unrhyw grŵp crefyddol arall.*

*Ar 27 Tachwedd 2018, lluniodd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Fwslimiaid Prydeinig y diffiniad gweithredol o Islamoffobia yn dilyn ymgynghoriad dwy flynedd.*

*Mae'r diffiniad fel a ganlyn:*

***"Mae Islamoffobia wedi'i wreiddio mewn hiliaeth ac mae'n fath o hiliaeth sy'n targedu Mwslimiaeth canfyddedig a neu ffyrdd pobl o fynegi eu bod yn Fwslim."***

*Mae'r cynnig hwn yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r diffiniad hwn, a chefnogi Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia, a fydd yn canolbwyntio ar y cyfraniadau cadarnhaol y mae Mwslimiaid yn eu gwneud yn ein dinas.*

***Cynnig***

*Mae'r Cyngor hwn o'r farn:*

- *Bod mabwysiadu diffiniad o Islamoffobia yn hanfodol i fynd i'r afael ag Islamoffobia mewn modd effeithiol wedi'i dargedu.*
- *Heb ddiffiniad o Islamoffobia, ni all rhywun nodi sut mae Islamoffobia yn amlygu ei hun ac yn gweithredu ac, felly, ni all ddyfeisio strategaethau ystyrlon i fynd i'r afael ag ef.*

***Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:***

- *Mabwysiadu diffiniad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia, ynghyd â* chanllawiau esboniadol y Gynghrair yn Erbyn Islamoffobia i ddarparu dealltwriaeth fwy cyfannol o Islamoffobia.
- *Gweithio gydag ysgolion Caerdydd, cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus, heddlu De Cymru, a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill i fynd i'r afael ag Islamoffobia ar lefel leol, i gefnogi'r gwaith ehangach sy'n ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hil.*
- *Cymryd camau pellach i fynd i'r afael ag Islamoffobia a chodi ymwybyddiaeth ohono, megis trefnu hyfforddiant a chynnal digwyddiadau ar sut i fynd i'r afael ag Islamoffobia, yn ystod Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia (Tachwedd)*
- *Cydweithio â'r gymuned Fwslimaidd leol i herio Islamoffobia a diwallu eu hanghenion fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.*
- Sicrhau bod gan Gyngor Caerdydd weithlu amrywiol a chynhwysol drwy ymgymryd â rhaglenni hyfforddiant er mwyn mynd i'r afael ag Islamoffobia a rhagfarn ddiarwybod.
- *Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol eraill fel yr ASau lleol i godi ymwybyddiaeth o Islamoffobia yn y Senedd ac annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu diffiniad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia*

Eiliodd y Cynghorydd Latif y gwelliant yn ffurfiol.

Agorodd yr Arglwydd Faer yr eitem ar gyfer dadl.

Ymatebodd y Cynghorydd Ali Ahmed i'r ddadl a chadarnhaodd fod y diwygiad wedi'i dderbyn.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig Sylweddol fel y'i diwygiwyd.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig Sylweddol fel y'i diwygiwyd.

52 : CWESTIYNAU LLAFAR

*Cynghorydd Davies i'r Cynghorydd De'Ath*
Cadarnhaodd dadansoddiad y Llywodraeth Lafur ei hun y bydd eu terfyn cyflymder 20mya diofyn cenedlaethol yn costio £4.5 biliwn i economi Cymru, ac yn costio dros

£30 miliwn i'w weithredu. Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar asedau Caerdydd a'r Cyngor?

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*
Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r Cyngor fydd yn talu'r costau gweithredu drwy gyllid y grant trafnidiaeth.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Davies*
Hoffwn ddatgan buddiant fel cyfarwyddwr anweithredol i Fws Caerdydd. Yn gynharach eleni cyflwynais gwestiwn ysgrifenedig yn gofyn pa effaith y bydd y terfyn cyflymder hwn yn ei chael ar gyllid Bws Caerdydd, sef un o asedau Cyngor Caerdydd. Rhoesoch ymateb hir ond nid oedd yn ateb. Ar raglen Sharp End ar ITV yr wythnos ddiwethaf dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Bws Caerdydd, "Rydym yn wirioneddol bryderus bod cyflymder bysiau ac amseroedd teithio ar fysiau yn mynd i arafu, ac yn cael effaith gynyddol ar fforddiadwyedd a dibynadwyedd bysiau." Mynegwyd pryder ganddynt hefyd am y gost uwch i gynnal yr amlder a'r hwylustod presennol, sy'n bethau y mae trigolion yn dweud wrthyf nad ydyn nhw'n union ar eu gorau erioed ar hyn o bryd. Felly heb adfywio dogfen Llinell i Gymryd y Llywodraeth Lafur, gofynnaf ichi eto, pa effaith fydd y newid yn y gyfraith yn ei chael ar gyllid Bws Caerdydd?

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*
Fel y dywedais ar ITV, ac fel yr wyf wedi dweud yn y Siambr hon, 20mya yw cyflymder taith fysiau Caerdydd ar gyfartaledd, felly nid wy'n meddwl y bydd yr effaith yn sylweddol. Fel y dywedais hefyd, byddwn ni'n cyflwyno strategaeth fysiau yn y Flwyddyn Newydd; bydd pecyn o fesurau fel coridorau blaenoriaeth bysiau a ddylai ei gwneud yn llawer haws yn gyffredinol i fysiau fynd o amgylch y ddinas gan olygu mai dyma fydd y dewis dull i bobl sy'n gadael eu ceir adref.

*Cynghorydd Shimmin i'r Cynghorydd Burke-Davies*
Dydyn ni ddim eto wedi gweld cynllun busnes pwrpasol ar gyfer y rhesymeg dros newid perchnogaeth neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, felly a allwn weld hyn, a chael eglurhad ynghylch sut mae monopoli posibl AMG dros y prif leoliadau byw dan do yng Nghaerdydd o fudd i bobl Caerdydd, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud?

*Ymateb – Cynghorydd Burke-Davies*
Y rheswm nad ydych wedi gweld adroddiad eto yw oherwydd nad yw wedi dod i'r Cabinet. Bydd yn dod i'r Cabinet fis nesaf, a byddwn yn gallu ystyried yn llawn yr holl opsiynau sydd ar y bwrdd o hynny, a byddaf yn gallu dod â'r rheini atoch a byddwn yn gallu ystyried gweithrediad y neuadd gyngerdd genedlaethol yn y dyfodol.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Shimmin*
Gofynnais am gynllun busnes, nid yr adroddiad gan ymgynghorwyr allanol; cynllun busnes y Cyngor ar gyfer yr adroddiad hwnnw. O ystyried nad yw'r awgrym presennol o neilltuo dyddiau i'r Cyngor logi Neuadd Dewi Sant ar gyfer cyngherddau clasurol a chymunedol yn ddigon agos i gwmpasu'r hyn a gynigir ar hyn o bryd; os mai'r bwriad yw gwneud newidiadau i'r acwsteg, y staff, neu'r cynnig ar gyfer newid rheolaeth neu berchnogaeth Neuadd Dewi Sant, a all y Cabinet ymrwymo nawr i gynnal proses dendro lawn ac agored sy'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chynhwysfawr?

*Ymateb – Cynghorydd Burke-Davies*
Mae hynny'n mynd i gael sylw yn adroddiad y Cabinet. Ar hyn o bryd, hyd nes y cawn hynny, nid wyf mewn sefyllfa i ymrwymo i unrhyw beth; ond byddwn yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid.

*Cynghorydd Gibson i'r Cynghorydd Goodway*
A allwch ddweud wrthyf pam y mae Cyngor Caerdydd yn cytuno mai prydlesu tir ym Mharc Hailey yw'r opsiwn gorau i Dŵr Cymru a'r orsaf bwmpio sydd wedi'i lleoli yno?

*Ymateb – Cynghorydd Goodway*
Bydd y Cynghorydd yn ymwybodol bod cais am adolygiad barnwrol wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r cais cynllunio ar gyfer datblygu gorsaf bwmpio carthion ar dir ym Mharc Hailey gan Dŵr Cymru. Bydd y Cynghorydd hefyd yn ymwybodol bod y cais wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2022. O ganlyniad i'r adolygiad barnwrol, rwyf wedi cael ar wybod y byddai'n amhriodol imi wneud sylwadau pellach ar y materion hynny, o ystyried y gallai niweidio'r achos cyfreithiol.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Gibson*
O gofio'r hyn y mae'r Cynghorydd Goodway wedi'i ddweud, mae'n amlwg na fydd yn gallu ateb fy ail gwestiwn, ar wahân i'r ffaith ichi weld heddiw fod deiseb wedi'i chyflwyno gan bobl Gorllewin Caerdydd, Gogledd Caerdydd ac yn ôl pob tebyg ymhellach i ffwrdd, felly gobeithio y caiff hynny ei ystyried. Efallai y byddai ymgynghoriad wedi bod yn briodol.

*Cynghorydd Goodway*
A gaf i ddweud fy mod yn cyfeirio'r Cynghorydd at yr ateb a roddais ychydig funudau yn ôl.

*Cynghorydd Ali i'r Cynghorydd Sangani*
A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd gwasanaeth ar-lein y GIG yn dechrau yn Hyb Ystum Taf?

*Ymateb – Cynghorydd Sangani*
Mae gwasanaethau cymunedol eraill yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yng ngwasanaethau iechyd y cyhoedd i hybu mynediad at wasanaethau iechyd ledled Caerdydd. Mae Cyswllt Iechyd Cymunedol yn brosiect newydd cyffrous sy'n dal wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda'r nod o sicrhau bod gofal iechyd digidol ar gael i bawb. Mae cleifion yn rhyngweithio â'r gwasanaethau iechyd drwy'r wefan, galwadau ffôn, cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ymgynghoriadau fideo. Er bod y dull cyfunol hwn yn fuddiol i'r rhan fwyaf o bobl, gall fod yn broblem i'r unigolion hynny sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Bydd y gwasanaeth peilot hwn yn galluogi cleifion i gael mynediad at ofal iechyd digidol yn eu hyb cymunedol, gyda thîm yr hyb yn darparu cymorth ar y safle i alluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau iechyd digidol. Mae gwaith rhagarweiniol sylweddol wedi'i wneud, gan gynnwys nodi safle a lleoliad addas, yn ogystal â phrofi'r dechnoleg briodol gan gynnwys systemau gweithio. Mae gwaith i'w wneud o hyd cyn y gellir lansio'r prosiect, ond y gobaith yw y bydd hynny'n digwydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

*Cynghorydd Robson i'r Cynghorydd Wild*
Pa effaith y mae'r hydref mwyn wedi'i chael ar wasanaethau rheoli gwastraff?

*Ymateb – Cynghorydd Wild*
Mae'r hydref mwyn wedi golygu bod dail o goed wedi disgyn yn hwyrach nag arfer; mae hyn wedi cael effaith fach ar wasanaethau stryd gyda chasgliadau gwastraff gardd wedi'u hymestyn ychydig ymhellach yn ôl i fis Tachwedd, a'r gwaith clirio dail yn cael ei ymestyn i mewn i fis Rhagfyr ac yn hwyrach os bydd angen.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Robson*
Mae'n debyg y gallwch chi ddyfalu fy nhrywydd gyda hyn yn seiliedig ar eich ateb. Gwnaethoch son am sut y mae'r dail wedi disgyn yn hwyrach, ac felly a gaf fi ofyn am wasanaeth casglu gwastraff gardd ychwanegol ledled y ddinas i helpu'r rhai y maent eisoes wedi cael eu casgliad diwethaf, ac yn sgil y ffaith bod y dail yn dal ar y coed mewn rhai lleoedd oherwydd yr hydref mwyn eleni. Fel Cyngor gallwn helpu gyda dim ond y casgliad unigol ychwanegol hwnnw; ddechrau mis Rhagfyr, tua'r adeg honno, i helpu gyda'r gwastraff gardd gan fod pobl eisiau gwneud eu rhan i gadw eu heiddo eu hunain a'u strydoedd cyfagos yn lân. Felly a fydd casgliad gwastraff gardd ychwanegol ar y gweill?

*Ymateb – Cynghorydd Wild*
Mae'n un diddorol; Roeddwn i'n gwrando'n ofalus achos bod gwahaniaeth rhwng y dail sydd yng ngerddi pobl a'r dail sydd yn y strydoedd. O ran dail yng ngerddi pobl, dyna'r lle gorau iddynt yn gyffredinol; gall pobl eu compostio. Nid wy'n meddwl ein bod am fynd o gwmpas yn cynnal gwasanaeth casglu cyfan ar draws y ddinas gyfan pan na fydd ei angen ar rai pobl. Yr hyn yr ydym yn ei wneud drwy'r Cynghorydd, fel y soniais yn gynharach, ac rydym wedi lledaenu llawer o wybodaeth amdano: os yw pobl eisiau gwirfoddoli, ysgubo dail o amgylch eu palmentydd, eu llwybrau, pethau felly, byddwn yn trefnu casgliadau ychwanegol; a gofynnwch a yw trigolion eisiau gwneud hynny – mae llawer wedi gwneud hynny'n barod, – i gysylltu â thîm Caru Eich Cartref a byddwn yn ceisio helpu cymaint ag y gallwn.

*Cynghorydd Wood i'r Cynghorydd Wild*
A yw'r Cyngor yn ystyried cyflwyno unrhyw ffioedd am y gwasanaeth casglu gwastraff gardd?

*Ymateb – Cynghorydd Wild*
Yn amlwg byddai angen ystyried unrhyw gynigion ynghylch ffioedd a thaliadau fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24; wrth gwrs, byddai hynny'n dod gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chyfle i bob un ohonom gael cyfle i ymuno yn y ddadl honno hefyd.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Wood*
Os cynigir codi tâl, sut fydd y Cyngor yn osgoi sefyllfa lle mae'n gwahaniaethu – i bob pwrpas – yn erbyn y bobl hynny nad oes ganddynt fynediad i gerbydau, gan nad oes caniatâd iddynt, neu nad ydynt yn medru defnyddio'r unig ffordd o waredu gwastraff gardd, sef canolfannau ailgylchu gwastraff cartref yn y ddinas, gan nodi, yn aml, mai'r bobl hynny nad oes car ganddynt yw'r bobl sy'n debygol o fod ymhlith y tlotaf mewn cymdeithas, pobl hŷn ac yn aml pobl sy'n agored i niwed?

*Ymateb – Cynghorydd Wild*
Unwaith eto byddwn yn dweud ein bod yn mynd i gael dadl lawn ynghylch y gyllideb; yn ogystal ag ymgynghoriadau cyhoeddus, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a bydd cyfle i bawb yn y Siambr hon gael cyfle gwirioneddol dda gyfrannu at unrhyw gynigion. Pan fyddwn yn sôn am gyllideb, mae hynny'n ddadl am ddiwrnod arall ac i bob un ohonom gymryd rhan yn y sgyrsiau hynny.

*Cynghorydd Lloyd Jones i'r Cynghorydd Burke-Davies*
A all yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Faes Chwarae Drovers Way?

*Ymateb – Cynghorydd Burke-Davies*
Yn sicr. Rwy'n gobeithio bod y cyfan yn newyddion cadarnhaol. Gallaf gadarnhau bod y Cyngor wedi nodi ffynhonnell gyllid a fydd yn galluogi'r cynllun draenio i symud yn ei flaen, sy'n hanfodol i adfer y man chwarae. Mae'r gwaith ar y cynllun draenio i fod i ddechrau fis nesaf, a rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2023. Rwy'n cael ar ddeall y bydd swyddogion yn cysylltu â chi a chyda'ch cydweithwyr yn y ward i roi amserlen ddangosol, a bydd gwaith i wella'r man chwarae yn dilyn yn syth ar ôl cwblhau a chymeradwyo'r cynllun draenio.

*Cynghorydd Robson i'r Cynghorydd Huw Thomas*
Pa gynlluniau sydd ar y gweill i wella'r rhwydwaith carthffosydd yng Nghaerdydd drwy gael gwared ar ddŵr wyneb?

*Ymateb – Cynghorydd Huw Thomas*
Fel yr eglurais yn gynharach, cyfrifoldeb Dŵr Cymru yw gwneud gwelliannau i'r rhwydwaith carthffosydd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, oherwydd deddfiad Atodlen 3 i'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, mae Cyngor Caerdydd, fel yr awdurdod llifogydd arweiniol lleol a'r corff cymeradwyo draenio cynaliadwy, yn gweithio gydag ymgeiswyr i gael gwared ar y cysylltiadau gollwng dŵr wyneb o garthffosydd Dŵr Cymru. Felly soniais am Grangetown Werddach yn fy ateb i'r Cwestiwn Cyhoeddus; mae honno'n enghraifft o gynllun ôl-osod sydd ynddo'i hun wedi cael gwared ar 42,000 metr sgwâr o ddŵr wyneb ffo o rwydwaith carthffosydd Dŵr Cymru yn y rhan honno o Gaerdydd. Gan droi at ddatblygiadau newydd, mae cysylltiadau dŵr wyneb helaeth i'r carthffosydd yn mynd i gael eu dileu drwy ddatblygiadau newydd o ganlyniad i'r gofyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth draenio cynaliadwy, a thrwy'r broses gymeradwyo drwy'r Cyngor fel y corff cymeradwyo draenio cynaliadwy.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Robson*
Hoffwn ganolbwyntio ar ddatblygiadau newydd yn gyflym; Cymeradwywyd prif gynllun dŵr budr Plasdwr a gorsaf bwmpio Parc Hailey ar y sail na fyddai dŵr wyneb o leoliadau heb eu diffinio yn yr ardal honno yn mynd i'r system mwyach. Pa gynlluniau sydd ar waith i gael gwared ar ddŵr wyneb yn yr ardaloedd hynny?

*Ymateb – Cynghorydd Huw Thomas*
Nid wyf yn gwbl siŵr a wyf yn derbyn cynsail y cwestiwn. Yn y cais cynllunio sy'n ymwneud â'r datblygiad y gwnaethoch sôn amdano ym Mharc Hailey, mae cyngor clir gan CNC ynghylch perygl llifogydd; mae'n nodi bod yr ardal yn gorwedd yn

rhannol o fewn Parth C-1 y map cyngor datblygu, ond mae'n ystyried bod y cynnig yn dderbyniol ar yr amod bod y datblygwr yn cael gwybod am y perygl llifogydd posibl.

*Cynghorydd Carter i'r Cynghorydd Thorne*
Yng ngoleuni'r ffaith bod landlordiaid preifat yn lleihau eu stoc tai, a oes gan y Cyngor gynlluniau i gyflymu ei broses o brynu eiddo preifat er mwyn darparu mwy o gartrefi cyngor?

*Ymateb – Cynghorydd Thorne*
Mae'r Cyngor yn parhau i brynu eiddo addas yn ôl o'r farchnad er mwyn cynyddu ei stoc. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth sicrhau cartrefi mwy i deuluoedd a chartrefi ar gyfer tai â chymorth. Yn ddiweddar, rydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y tai y gallwn eu prynu'n ôl eleni, ac i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau tai difrifol yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fel y dywedais o'r blaen, mae'r broses prynu'n ôl hefyd wedi ein helpu i atal digartrefedd mewn nifer o achosion, lle gallai teulu fod yn wynebu cael eu troi allan gan landlord preifat sy'n gwerthu'r cartref, ac rydym wedi gallu ei brynu a, thrwy hynny, ei gwneud yn bosibl i'r teulu aros yn yr eiddo hwnnw.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Carter*
Rwy'n meddwl bod gennym ni bob amser system ar waith lle rydym wedi cael cydbwysedd rhwng adeiladu o'r newydd phrynu'n ôl; ond tybed a fyddech yn cytuno â mi, yng ngoleuni costau adeiladu cynyddol, yn wyneb prinderau llafur, a'r amser y mae'n gallu ei gymryd i roi rhai o'r prosiectau mawr, cyffrous ond araf hyn ar waith; efallai y dylem fod yn edrych eto, gyda'r cyfle gwych hwn o gael cynifer o landlordiaid yn gadael y farchnad yng Nghaerdydd, sy'n peri pryder i gynifer; efallai bod hwn yn amser i edrych eto ar y gymhareb rhwng adeiladu o'r newydd a phrynu'n ôl?

*Ymateb – Cynghorydd Thorne*
Rydyn ni bob amser yn edrych ar yr opsiynau gorau ac yn adolygu'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Ond rhaid imi ddweud, anaml iawn y bydd pobl yn meddwl am yr effaith ganlyniadol; ac yn aml rydym wedi clywed pobl, cyplau ifanc, nad ydynt wedi gallu cael eu troed yn y drws yn y farchnad dai, yn enwedig eu rheswm bryd hynny oedd oherwydd bod landlordiaid yn prynu eiddo. Felly mae'n rhaid inni fod yn ofalus, mewn gwirionedd, nad yw'r hyn a wnawn yn effeithio ar bobl eraill hefyd. Ond rydym bob amser yn chwilio am yr opsiynau gorau.

*Cynghorydd Lloyd Jones i'r Cynghorydd Burke-Davies*
Rydym wrth ein bodd yn Radur a Threforgan o weld bod Tom Lockyer wedi cyrraedd carfan Cymru. Dechreuodd ei yrfa bêl-droed gyda Radyr Rangers, sydd wedi cael amser anodd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cae maen nhw'n ei ddefnyddio dan ddŵr am lawer o'r flwyddyn. Nid oes ganddynt fawr ddim cyfleusterau. Rydym yn hynod o falch eu bod wedi llwyddo i dyfu'r clwb, gan gynnig cyfle i fechgyn a merched chwarae pêl-droed er gwaethaf popeth. Er gwaetha pawb a phopeth. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at helpu Radyr Rangers?

*Ymateb – Cynghorydd Burke-Davies*
Hoffwn ymuno â chi mewn dymuno pob llwyddiant i Tom Lockyer yng Nghwpan y Byd yn nhîm Cymru, pob lwc iddo ac i weddill y tîm. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi timau yng Nghaerdydd gan gynnwys timau fel Radyr Rangers, a gwn fod cwestiynau

ysgrifenedig wedi'u crybwyll o'r blaen gyda chi a'ch cydweithiwr ward. Maen nhw'n gweithio gyda swyddogion rhwng Parciau ac Ystadau ar hyn o bryd ac yn sicrhau'r sicrwydd deiliadaeth sydd ei angen i ddenu'r cyllid allanol, felly gobeithio y bydd hynny ar waith yn weddol gyflym er mwyn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Rydyn ni hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith gyda Trafnidiaeth Cymru i ddarparu adeilad gwaddol ar gyfer y clwb a’r gymuned leol yn Moundfield yn Nhreforgan.

*Cynghorydd McEvoy i'r Cynghorydd Merry*
A allai’r Aelod Cabinet amlinellu pa hawliau sydd gan rieni yng Nghaerdydd o ran gwybodaeth am gynnwys gwersi ar ryw a rhywedd? Sut allan nhw ddarganfod beth sy'n cael ei ddysgu?

*Ymateb – Cynghorydd Merry*
Mae eleni yn nodi cyflwyno Cwricwlwm i Gymru newydd Llywodraeth Cymru mewn ysgolion. Rhan orfodol o'r cwricwlwm hwnnw yw addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys canllaw i rieni ar y cwricwlwm newydd, ar gael ar wefan hyb Llywodraeth Cymru, a dosbarthwyd yr holl fanylion i aelodau ar ddechrau mis Medi. Bydd ysgolion yn datblygu eu cwricwlwm eu hunain yn seiliedig ar gyd-destun sy’n cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb, a rhaid i’r cwricwlwm hwn fod yn briodol o ran datblygiad. Gan fod ysgolion yn datblygu eu cwricwlwa eu hunain ar gyfer pob pwnc, ysgolion unigol sydd yn y sefyllfa orau i rannu enghreifftiau o ddeunyddiau ac adnoddau y bwriedir eu defnyddio ag unrhyw rieni pryderus, a gwn fod hyn yn digwydd ar draws Caerdydd wrth i ysgolion ymgysylltu â’u rhieni. Bydd angen i ddeunyddiau addysgu hefyd gyd-fynd â gofynion cod addysg cydberthynas a rhywioldeb Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyfeiriad at gyfathrebu rhagweithiol a rheolaidd â rhieni a gofalwyr. Mae'r Cyngor yn annog cyfathrebu parchus rhwng ysgolion a rhieni mewn perthynas â'r rhan hon o'r cwricwlwm newydd, gan adlewyrchu'r perthnasoedd cadarnhaol sydd wedi'u meithrin rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu dros lawer o flynyddoedd.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd McEvoy*
Diolch am yr eglurhad. Ddim yn hawl ond gall ysgolion rannu. Ar y dechrau byddaf yn rhannu fy mhryderon mewn gwirionedd, felly dyna'r cwestiwn. Roeddwn yn athro yn fy mhroffesiwn cyntaf; treuliais 20 mlynedd yn y dosbarth; rwyf wedi hen arfer â chwricwlwa, cynlluniau gwaith, a'r hyn y mae rhaid ichi ei addysgu oherwydd ei fod ar y cwricwlwm. Mae hyn o'r Alban, gyda llaw, mae'n digwydd. A thybed, a ydych chi'n teimlo'n bryderus bod plant tair oed, tair blwydd oed – mae yn y canllawiau, mae yn y cwricwlwm – yn cael eu haddysgu am bidynnau, sberm, y groth. Tair blwydd oed, iawn, felly rydym yn siarad am yr hyn sy'n briodol. Mae fideos yn cael eu dangos i ferched pymtheg oed o fanana wedi'i dipio yn Nutella, ac mae'n debyg bod 40% o ferched yn cael rhyw drwy'r anws.

*Cynghorydd Merry*
Rhaid imi ddweud, hoffwn ofyn i bob Aelod yn y Siambr hon ymgysylltu’n barchus â’u hysgolion lleol a chefnogi eu hysgolion lleol wrth iddynt wynebu her gan rieni sydd wedi cael eu camarwain yn llwyr gan bobl am yr hyn sy’n cael ei addysgu yn ein hysgolion, sy’n seiliedig ar gysyniadau o barch, gwrth-drais, a deall materion sy’n ymwneud â chydsyniad, y byddai pawb yn y Siambr hon yn cytuno mai dyna’r union fath o faterion y mae angen eu haddysgu. Ac mae hyn yn cael ei wneud mewn ffordd

sy'n briodol i’r oedran. Felly, er enghraifft, mae Cam 1 yn ymwneud â dysgu i rannu teganau.

*Cynghorydd Carter i'r Cynghorydd Goodway*
A yw’r Aelod Cabinet yn hyderus bod Llywodraeth Cymru yn dal i gefnogi cynigion Gorsaf Parcffordd Caerdydd?

*Ymateb – Cynghorydd Goodway*
Rwy’n cael ar ddeall bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymwneud â’r datblygiad arfaethedig ac mae’n ymddangos eu bod yn ei gefnogi, ac rwy’n ymwybodol bod gan Lywodraeth Cymru gyfran ariannol yn y prosiect. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod Parcffordd Caerdydd yn parhau i fod yn nodwedd hollbwysig yn y rhestr o atebion amgen arfaethedig i adeiladu ffordd liniaru’r M4, i’r fath raddau ei bod yn anodd deall sut y gallai Llywodraeth Cymru fod yn ddim mwy na chefnogol i’r cynllun.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Carter*
Diolch ichi am y sicrwydd hwnnw. Rwy’n meddwl, fel fi, mae’n debyg y cawsoch chi’ch synnu gan y newyddion yn y wasg bod yr Arolygydd Cynllunio yn ei alw i mewn er, gyda phob parch, mae ganddo’r hawl i wneud hynny. A oes mwy y gall y Cyngor hwn ei wneud i gefnogi ac amddiffyn y safbwynt hwn ymhellach i'r Arolygwr Cynllunio, oherwydd ei bod yn sefyllfa anarferol iawn?

*Ymateb – Cynghorydd Goodway*
Gallaf gadarnhau y bu ymgysylltu ar lefel wleidyddol â Gweinidogion Cymru ynghylch y sefyllfa newydd. Gallaf hefyd gadarnhau bod ein swyddogion cynllunio yn amlwg yn llunio’r achos, os oes arolygiad llawn yn mynd i gael ei gynnal, fel y gallwn gyfiawnhau’r safbwynt a gymerodd y Pwyllgor Cynllunio pan benderfynodd roi caniatâd cynllunio yr holl fisoedd hynny’n ôl. Yr hyn yr wyf yn siomedig iawn yn ei gylch, ac nid dyma'r tro cyntaf iddo ddigwydd, yw'r oedi cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ynghylch p'un a ydynt yn mynd i alw cais i mewn. Hynny yw, fe gymeron nhw lawer gormod o amser i benderfynu peidio â galw prosiect yr Arena i mewn; maent wedi cymryd llawer rhy hir, misoedd a misoedd a misoedd, i benderfynu eu bod am benderfynu ar y cais hwn. Mae arnaf ofn nad yw oedi o'r fath yn gwneud dim i wella enw da Caerdydd na Chymru yn y gymuned fusnes y tu allan i'r wlad hon, a gwn ei fod yn cael effaith niweidiol ar fuddsoddwyr yn Llundain ac mewn mannau eraill, oherwydd eu bod yn meddwl ei bod yn rhy anodd gwneud busnes yng Nghymru.

*Cynghorydd Jackie Jones i'r Cynghorydd Sangani*
Mae'n briodol y noson cyn y Diwrnod Rhyngwladol i Roi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Merched, fel y dywedodd y Cynghorydd Chowdhury, ein bod yn canolbwyntio ar Gonfensiwn Istanbul. Ar ôl 10 mlynedd hir, ddwy lywodraeth Dorïaidd yn ôl fe wnaeth cyn Ysgrifennydd Cartref y llywodraeth Dorïaidd gadarnhau Confensiwn Istanbul ym mis Gorffennaf eleni, a daeth yn weithredol ar 1 Dachwedd. A fyddech yn cytuno ei bod yn warthus na wnaeth Llywodraeth y DU gadarnhau’r Cytuniad yn llawn, gan adael allan llawer iawn, iawn o fenywod, menywod mudol?

*Ymateb – Cynghorydd Sangani*

Drwy gadw Erthygl 59 o Gonfensiwn Istanbul yn ôl yn dawel fach, mae Llywodraeth y DU yn dal i adael rhai o'r menywod mwyaf agored i niwed sy'n byw yn y wlad hon i lawr, sef menywod mudol. Mae gwasanaethau trais domestig arbenigol wedi tynnu sylw at y gwahaniaethu a wynebir gan ddioddefwyr â statws mewnfudo afreolaidd ers degawdau, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Mae methu â chael yr amddiffyniad hwn a'r gefnogaeth hon i fenywod mudol yn atgyfnerthu'n effeithiol fod system ddwy haen o gefnogaeth i ddioddefwyr, gyda rhai yn wynebu gwahaniaethu oherwydd eu statws mudo. Rhaid i Lywodraeth y DU ddileu'r penderfyniad i gadw'r erthygl hon yn ôl ar unwaith a darparu amddiffyniad cyfartal i bob menyw mewn angen. Mae pob menyw, ni waeth o ble maen nhw'n dod, yn haeddu amddiffyniad rhag trais.

*Cynghorydd Williams i'r Cynghorydd De'Ath*
A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Cyngor i gyflwyno tollau ffyrdd a thâl tagfeydd yng Nghaerdydd?

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*
Gwnaethoch chi ofyn y cwestiwn hwn imi ddiwethaf ym mis Medi, ac nid oes dim byd sy'n haeddu diweddariad wedi digwydd yn yr wythnosau ers hynny.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Williams*
Yn amlwg mae sïon ar led, faint o ffyrdd yng Nghaerdydd fydd yn cael eu heffeithio, ydy 40% o ffyrdd Caerdydd yn mynd i wynebu tâl tagfeydd Cynghorydd De'Ath? A allwch chi ddweud wrth y Siambr, rydych chi wedi bod yn Aelod Cabinet nawr ers chwe mis, amser eithaf hir mewn gwleidyddiaeth, sawl canghellor rydym ni wedi cael yn ystod y cyfnod hwnnw? Cynghorydd De'Ath, dywedwch wrthym, beth yw eich barn bersonol am dollau ffyrdd a chodi tâl tagfeydd yng Nghaerdydd; a yw'n rhywbeth yr ydych o'i blaid, mewn egwyddor, neu a fyddwch yn gwrthwynebu taliadau tagfeydd yng Nghaerdydd? Y cyfan yr ydym am ei wybod yw eich barn y Cynghorydd De'Ath.

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*
Fel y gwyddoch, mae fy mhortffolio i yn bair bywiog; rydym yn ystyried llawer o bethau, nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar unrhyw beth. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, pan fyddwn yn gwneud hynny, byddwch yn un o'r bobl gyntaf i wybod. Fe ddywedaf, Joel, dyma'r craic, a byddwch yn gwybod; Ni allaf wneud mwy na hynny.

*Cynghorydd Berman i'r Cynghorydd De'Ath*
Pan holais yn ddiweddar ar ran un o drigolion fy ward am y posibilrwydd o gyflwyno cynllun parcio newydd i breswylwyr yn unig, fe'm cynghorwyd: mae'r strategaeth ar gyfer rheoli parcio i drigolion yn cael ei hystyried ar hyn o bryd; mae opsiynau newydd yn cael eu harchwilio a'u gwerthuso; a hyd nes y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, ni fydd y Cyngor yn gosod cynlluniau parcio newydd i drigolion nac yn cynyddu'r ddarpariaeth. A allwch felly roi gwybod am y rhesymeg dros adolygu'r strategaeth; pa opsiynau sy'n cael eu hystyried i'w newid; pam nad yw Aelodau na thrigolion wedi cael gwybod yn flaenorol bod strategaeth newydd yn cael ei hystyried; ac, ar hyn o bryd, pryd rydych chi'n rhagweld gallai strategaeth ddiwygiedig fod ar waith?

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*

Nid wy’n meddwl bod hwnnw'n gwestiwn afresymol o bell ffordd; mae ein polisi parcio yn cael ei ddiweddaru ar sail dreigl, nid yw hynny'n ddim byd anarferol. Y prif newid fydd sut mae'r cynlluniau parcio parth yr ydym yn eu cyflwyno yn cyd-fynd â'r strategaeth ehangach honno. Caiff unrhyw newidiadau eu cyflwyno i’r Cabinet yn gynnar yn y flwyddyn newydd ac yn mynd trwy brosesau arferol papur Cabinet os gwneir unrhyw newidiadau i'r polisi.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Berman*
Diolch i'r Cynghorydd De'Ath am egluro hynny. Rwyf ychydig yn bryderus bod trigolion wedi cael eu gadael ychydig mewn limbo ar hyn o bryd oherwydd nid oes capasiti i edrych ar unrhyw gynlluniau newydd; felly a allwch roi sicrwydd inni mai dim ond am gyfnod byr y bydd hyn, ac y bydd y Cyngor yn dechrau gallu ymateb i geisiadau trigolion am ystyried cynlluniau newydd cyn rhy hir?

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*
Gallaf, yn bendant Gynghorydd, ni ddylai fod yn hwy nag ychydig fisoedd cyn i hynny fod yn bosibl.

*Cynghorydd Leonora Thomson i'r Cynghorydd Burke-Davies*
O ystyried adroddiadau bod cynigion ar y gweill ar gyfer model cyflawni newydd ar gyfer Neuadd Dewi Sant, a fyddai’n bosibl ichi, Gynghorydd Burke-Davies, roi manylion ynghylch sut y byddai'r Cyngor yn diogelu'r rhaglenni clasurol ac yn benodol hefyd y rhaglenni cymunedol a gynhelir yn y lleoliad hwnnw?

*Ymateb – Cynghorydd Burke-Davies*
Unwaith eto, mae'r adroddiad yn mynd i gael ei ystyried y mis nesaf, ac ar yr adeg honno byddwn yn gallu ystyried gweithrediad a rhaglen ar gyfer Neuadd Dewi Sant yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i warchod y rhaglen gerddoriaeth glasurol o safon fyd-eang a gefnogir gan y rhaglen gymunedol, gyda'r bwriad o wneud y gorau o'r arlwy gerddoriaeth gyffredinol mewn lleoliad poblogaidd iawn.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Thomson*
Mae fy nghwestiwn atodol yn ymwneud â'r acwsteg yn benodol. Mae acwsteg Neuadd Dewi Sant yn hollol wych. Mae gen i ffrind a fu ar daith yn ddiweddar gyda Cherddorfa Genedlaethol Gwlad Belg. Cawsant daith fawr yn y DU; buont ar daith i Neuadd Usher yng Nghaeredin; aethant i Neuadd Bridgewater ym Manceinion; Neuadd y Dref yn Cheltenham; Sage, Gateshead; y Neuadd Symffoni yn Birmingham; yr holl neuaddau cyngerdd gorau. Roedden nhw i gyd yn gytûn mai’r acwsteg yn Neuadd Dewi Sant oedd y gorau o'r daith gyfan. Ac mae pryderon sydd wedi’u mynegi imi gan bobl yn sector y celfyddydau, gyda’r newidiadau mewn gwirionedd a allai gael eu cynnig, y gellid cael effaith ar yr acwsteg. Sut ydych chi’n mynd i ddiogelu’r acwsteg gwirioneddol bwysig hwnnw i Gymru?

*Ymateb – Cynghorydd Burke-Davies*
Rydym yn ymwybodol o'r angerdd ynghylch y Neuadd ac yn benodol yr acwsteg ar gyfer yr adeilad. Byddai'n rhaid i unrhyw gynnig ar gyfer yr adeilad fodloni'r Cyngor y byddai enw da'r Neuadd o ran acwsteg o safon fyd-eang yn cael ei chynnal. Ond eto, nes inni gael rhagor o wybodaeth yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Rhagfyr, ni fyddwn yn gallu dweud gormod ar hyn o bryd; ond rydym yn ymwybodol.

*Cynghorydd Robson ar ran y Cynghorydd Cowan i'r Cynghorydd Goodway*
A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am ddyfodol Plasty Caerdydd?

*Ymateb – Cynghorydd Goodway*
Bydd y Cynghorydd yn ymwybodol bod y Cyngor wrthi'n adolygu ei ofynion swyddfa craidd, a bydd yn deall y bydd y Plasty yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad hwnnw. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cabinet wedi cwblhau ei gynigion ynghylch gofynion swyddfa craidd y Cyngor eto, ond gallaf gadarnhau bod y defnydd o'r Plasty gan wasanaethau eraill y Cyngor, sydd wedi'u lleoli mewn mannau eraill ar hyn o bryd, yn debygol o fod yn rhan o'r cynigion hynny. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelodau nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar hyn o bryd.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Robson*
Mae hynny'n ddiddorol; Gobeithiaf y byddwch yn rhannu manylion cyn gynted â phosibl ynghylch pa adrannau sydd am symud i'r Plasty. Felly, a allwch gadarnhau y bydd yr adeilad yn parhau ym mherchnogaeth y Cyngor bob amser?

*Ymateb – Cynghorydd Goodway*
Bydd y Cynghorydd yn cydnabod na allaf achub y blaen ar y cynigion a fydd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Cabinet. Ond gallaf gadarnhau nad wy'n ymwybodol y bu unrhyw drafodaethau a fyddai'n awgrymu na fydd yr adeilad yn parhau i fod ym mherchnogaeth y Cyngor.

*Cynghorydd Molik i'r Cynghorydd De'Ath*
Y defnyddwyr ffyrdd sydd â'r flaenoriaeth uchaf a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yw cerddwyr. Pa lefel o ymgynghori a ddigwyddodd gyda defnyddwyr ffyrdd o'r fath cyn i groesfannau anniogel ar gyffyrdd gael eu gosod?

*Ymateb – Cynghorydd De'Ath*
Cynghorydd Molik, nid ydym wedi gosod unrhyw groesfannau anniogel yng Nghaerdydd; Nid wyf yn siŵr at beth yr ydych yn cyfeirio.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Molik*
Nid wy'n gwybod a wnaethoch fethu'r sylw a roddwyd yn y wasg i nifer o groesfannau yr ydych wedi'u gosod ar gyffyrdd a ganfyddwyd ac a ystyriwyd eu bod yn anniogel gan drigolion sy'n cerdded ar hyd y ffyrdd hynny. Rydych chi'n gwadu, ac mae hynny'n awgrymu sut y bu diffyg ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r ffyrdd a'r croesfannau hynny. Felly mae'n anniogel ac mae pobl wedi nodi ei fod yn anniogel iddynt gerdded drwyddo. Nid ydych chi'n ymgynghori, ddim yn ystyried barn am … bu'n rhaid imi gywiro'r ffaith iddo ddweud nad oedd unrhyw groesfannau anniogel, oherwydd bod pobl wedi canfod eu bod yn anniogel. Faint wnaethoch chi ei wario ar y croesfannau hynny, ac a ydych wedi dysgu gwersi am fethu â darparu croesfannau diogel i drigolion sydd ymhlith y defnyddwyr ffyrdd sydd fwyaf agored i niwed? A ddysgwyd gwersi?

*Ymateb – Cynghorydd De'ath*
Pan fyddwn yn gosod croesfannau newydd, rydym yn ymgynghori. Mae'r croesfannau yr ydych yn cyfeirio atynt wedi'u gosod fel rhan o arbrawf gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio technoleg i fesur rhyngweithiad ceir a cherddwyr. Gwnaethom ymgynghori â grwpiau anabledd hefyd. Dyna beth mae Llywodraeth

Cymru yn ei wneud. Rydych chi'n ysgwyd eich pen; maent yn llythrennol yn gwneud hynny. Pe baem yn eu gwneud yn rhai parhaol byddai rhywfaint o ymgynghori. Ond peidiwch ag anghofio, oherwydd Rheolau'r Ffordd Fawr newydd, gyda cherddwyr mae’r flaenoriaeth ar y cyffyrdd hynny. Felly mae cael croesfan yn gwneud hynny'n weladwy ac yn amlwg. Mae hyn i gyd yn ymwneud â gwneud ffyrdd yn ddiogel i ddefnyddwyr ffyrdd sy’n agored i niwed er mwyn annog cerdded a Theithio Llesol.

*Cynghorydd Peter Huw Jenkins i'r Cynghorydd Weaver*
Gyda dyfodol ansicr Twitter, a all yr Aelod Cabinet ddweud wrthyf faint o’r ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor a wneir drwy’r gwasanaeth hwnnw?

*Ymateb – Cynghorydd Weaver*
Twitter, Facebook ac Instagram yw’r prif blatfformau cyfryngau cymdeithasol y mae’r Cyngor yn eu defnyddio. Mae'r rhain yn gyfryngau pwysig i’n galluogi i gyflwyno newyddion a straeon am waith y Cyngor a chysylltu â thrigolion yn uniongyrchol ac am ddim. Twitter oedd y platfform cyfryngau cymdeithasol cyntaf y gwnaethom ei ddefnyddio fel Cyngor. Mae’n parhau i fod yr un sydd â’n nifer fwyaf o ddilynwyr, ond rydym wedi cynyddu’n defnydd o’r tri dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gennym tua 105,000 o ddilynwyr ar Twitter, 52,500 ar Facebook a 30,500 ar Instagram. Felly, er mai Twitter yw ein sianel fwyaf hirhoedlog ac mai honno sydd â’r nifer fwyaf o ddilynwyr, drwy blatfform Facebook mewn gwirionedd y mae’r cysylltiad mwyaf â'r Cyngor yn digwydd.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Jenkins*
Rydym wedi gweld drwy Lywodraeth y DU faint o niwed y gall egomaniac, sy’n sicr o’i arbenigedd ei hun ond sy’n gwbl ddi-glem, ei wneud mewn cyfnod byr iawn o amser. O ystyried hyn a all yr Aelod Cabinet fy sicrhau, os caiff Twitter ei redeg i'r wal, fod gennym gynlluniau digonol i symud ein presenoldeb i blatfform arall?

*Ymateb – Cynghorydd Weaver*
Gallaf yn wir. Rwyf eisoes wedi sôn ein bod yn ymgysylltu ychydig yn fwy ar Facebook. Yn ogystal, mae'n werth gwybod mai Instagram yw ein platfform cyfryngau cymdeithasol sydd wedi tyfu gyflymaf; felly, pe bai Twitter yn peidio â bod yn hyfyw byddai gennym ddechrau da eisoes ar blatfformau eraill. Wrth gwrs, rydym yn cyfathrebu drwy gyfryngau traddodiadol yn ogystal â mathau eraill o ymgysylltu; byddai hynny’n parhau, a phe bai un o’r platfformau cyfryngau cymdeithasol hynny’n methu byddem yn ailystyried ein strategaeth i sicrhau ein bod yn symud i unrhyw blatfform y mae’r cyhoedd yn ei ddefnyddio. Gwnaethoch roi'r enghraifft o Lywodraeth y DU yn rhedeg ei hun i’r wal, a diolch byth yn yr achos hwnnw hefyd mae mesurau lliniaru parod; dyna’r Blaid Lafur, a byddwn yn gallu cael y blaid honno mewn llywodraeth cyn gynted ag y bydd y Prif Weinidog hwn yn dangos dewrder a gadael i’r bobl benderfynu.

*Cynghorydd Bowen-Thomson i'r Cynghorydd Lister*
Pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei roi i blant a theuluoedd sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)?

*Ymateb – Cynghorydd Lister*
Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn addo na fyddaf byth yn cyflawni, esgusodi nac yn aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod. Mae’r Cyngor hwn

yn falch o ddarparu cymorth i blant a theuluoedd drwy wasanaethau arbenigol sy’n darparu cymorth i’r rhai sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; un gwasanaeth i ddioddefwyr benywaidd ac un arall i ddynion. Mae’r rhain yn cynnig cyngor a gwasanaethau cyfeirio, lloches a llety â chymorth, a chymorth parhaus yn y gymuned, gan gynnwys ôl-ofal, adfer a chymorth dan arweiniad cyfoedion. Lle ceir pryderon, mae gweithwyr cymdeithasol yn gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod eu diogelwch a'u lles yn cael eu hystyried yn llawn; ac mae tîm ymroddedig, Safe As, yn darparu cymorth sy'n briodol i'r oedran i blant a phobl ifanc, gan gynnwys pobl sy'n ddioddefwyr o fewn eu perthnasoedd eu hunain, pobl mewn lloches a phobl yn y cymunedau; ac mae'r tîm hefyd yn cynnig sesiynau briffio i ysgolion.

*Cwestiwn Atodol – Cynghorydd Bowen-Thomson*
Mae'n wych clywed am y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'u teuluoedd. Sut ydych chi’n gweithio gyda phartneriaid i gefnogi’r plant hynny?

*Ymateb – Cynghorydd Lister*
Hoffwn achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i chi am yr holl waith gwych yr ydych wedi'i wneud dros gyfnod hir o amser yn y sector hwn. Mae yna nifer o ymyriadau y gellir eu cyrchu ac mae'n wirioneddol allweddol ein bod yn gweithio gyda phartneriaid mewn partneriaeth ar hyn; nid yw'n rhywbeth y gall y Cyngor ei wneud ar ei ben ei hun, mae angen inni weithio gyda phartneriaid – rydw i'n mynd i’w henwi yma: megis yr NSPCC, Media Academy Cymru, Cymru Ddiogelach; mae amrywiaeth o bartneriaid ar gael, ond mae gennym ein gwasanaethau ein hunain o fewn y Gwasanaethau Plant, ac maent yn gwneud gwaith gwych i gefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

*Cynghorydd Humphreys i'r Cynghorydd Mackie*
A allai’r Aelod Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cyngor am unrhyw gynnydd o ran cael pobl yn ôl i’w cartrefi ar ôl bod yn yr ysbyty? Rwyf wedi clywed bod llawer o bobl hŷn sydd eisiau bod gartref a babanod a phlant ifanc sydd hefyd yn aros am becynnau gofal.

*Ymateb – Cynghorydd Mackie*
Rwy'n falch o ddweud bod partneriaeth gadarn ar waith rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, a bod cyfarfodydd lefel uchel rheolaidd a gwaith amlasiantaethol yn digwydd. Mae swyddogion wedi cydweithio i roi llwybrau clir ar waith ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty. Mae ein Byddin Binc o swyddogion cyswllt yn gweithio yn Ysbyty’r Waun i sicrhau bod cleifion yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir, ac mae gwaith cymdeithasol pwrpasol yn yr ysbyty yn cynnig cymorth i’r rhai ag anghenion mwy cymhleth. Fodd bynnag, mae’r pwysau ar yr ysbyty yn parhau’n ddifrifol ac, o ganlyniad, rydym wedi rhoi adnoddau ychwanegol ar waith i helpu i fynd i’r afael â hyn, gan gynnwys cyflogi gweithwyr cymdeithasol ysbyty ychwanegol. Mae gwasanaeth gofal cartref ymateb cyflym newydd i fod i ddechrau yn fuan iawn. Bydd hyn yn helpu pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty a gwella yn eu cartrefi eu hunain, tra'u bod yn aros i gael eu hasesu am ofal parhaus. Mae uned adsefydlu seiliedig ar therapi hefyd wedi'i sefydlu yn yr ysbyty, ac mae uned arall wedi'i lleoli yn y gymuned ar y gweill, fel y gall pobl wella mewn lleoliad cartrefol er mwyn eu gadael i fynd adref cyn gynted â phosibl. Nid yw swyddogion yn ymwybodol o unrhyw broblemau sy’n

ymwneud â rhyddhau mamau a babanod neu unrhyw blant ifanc o'r ysbyty neu sy'n aros am ofal a phecyn cymorth gennym ni.

53 : BUSNES BRYS

Nid oedd unrhyw fusnes brys

54 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Derbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i leoedd gweigion presennol y pwyllgor fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad seddau a gymeradwywyd a dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i dderbyn yr enwebiadau a phenodi i'r lleoedd gwag ar Bwyllgorau, yn unol â dymuniadau Grŵpiau'r Pleidiau, fel y nodir yn Nhabl A ac ar y Daflen Ddiwygio.

55 : PENODI LLYWODRAETHWYR O'R AWDURDOD LLEOL I GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Penodi Llywodraethwyr Ysgol o'r Awdurdod Lleol i lenwi swyddi gweigion, yn awr ac yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i gymeradwyo penodiadau newydd ac ailbenodi llywodraethwyr o'r Awdurdod Lleol i gyrff llywodraethu ysgolion fel y nodir ar y Daflen Ddiwygio, pob un am gyfnod o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad.

56 : PENODIAD I STADIWM Y MILENIWM CCC

Ystyried ailbenodi Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol y Cyngor i Stadiwm y Mileniwm ccc.

PENDERFYNWYD:

CYTUNWYD i gymeradwyo ailbenodi Mr Sameer Rahman yn Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol i Stadiwm y Mileniwm ccc am gyfnod pellach o dair blynedd hyd at 6 Ionawr 2026.

57 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 17 (f) y Cyngor, mae Cwestiynau Ysgrifenedig wedi dod i law i'w hystyried ynghyd â'r ymatebion fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod